LIVING STREETS



CA2 / Camau Cynnydd 2 A 3 / P 1–2

# Mis RHYNGWLADOL Cerdded i'r Ysgol

Mae symud rheolaidd yn bwysig i iechyd disgyblion a gall hefyd roi hwb i hyder, hapusrwydd a chysylltiad ag eraill. Defnyddiwch ddyddiadur cerdded a mynd ar olwynion yn yr ystafell ddosbarth i annog disgyblion i ysgrifennu neu dynnu lluniau am eu taith.



TASG

## YSGRIFENNU COFNOD DYDDIADUR

### HYD

Cyfanswm o tua 90 munud dros un wythnos ysgol. Tua 10 munud ar gyfer y pedwar diwrnod cyntaf gyda thua 30 munud i ysgrifennu cofnod dyddiadur ar ddiwrnod pump.

### NOD

Bydd disgyblion yn cynllunio ac yn ysgrifennu cofnod dyddiadur am eu taith i'r ysgol dros wythnos. Bydd disgyblion yn ysgrifennu neu'n tynnu lluniau o rhywbeth maen nhw'n dod ar eu traws ar eu taith bob dydd am bedwar diwrnod. Ar y diwrnod olaf, bydd disgyblion yn crynhoi'r cyfan mewn cofnod dyddiadur am eu hwythnos o gerdded neu fynd ar olwynion i'r ysgol.

**Amcanion Dysgu**

Bydd disgyblion yn dysgu nodweddion allweddol ysgrifennu dyddiaduron

- Cynllunio/ysgrifennu darn o ysgrifennu ffeithiol
- Ysgrifennu yn y person cyntaf
- Ysgrifennu yn amser y gorffennol
- Cofio ac ysgrifennu digwyddiadau mewn trefn gronolegol
- Strwythur – defnyddio paragraffau i wahanu gwahanol ddigwyddiadau a syniadau
- Defnyddio iaith emosiynol fel bod y darllenydd yn deall teimladau a safbwynt yr awdur
- Defnyddio cysylltteiriau amser / geiriau adferfol amser – er enghraifft, yn gyntaf, yn y pen draw, yn olaf, i helpu i strwythuro eu hysgrifennu.

### ADNODDAU

- Templedi dyddiadur
- Penau/pensiliau
- Rhwbwyr
- Pensiliau lliw



### CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM

- Ysgrifennu Saesneg CA2 (Bl 3-4)
- Saesneg a Llythrennedd L1-2

### SESIWN GLOI

Fel dosbarth, trafodwch bwrpas ysgrifennu dyddiaduron, gan ystyried

- **PWY** – pa fath o gynulleidfa/darllenydd mae'r dyddiadur wedi'i fwriadu ar ei gyfer?
- **BETH** – beth yw pwrpas cadw dyddiadur?
- **PRYD** – allwch chi feddwl am unrhyw ddyddiaduron hanesyddol?

### MEDDWL, PARU, RHANNU:

Mewn parau neu grwpiau bach, mae disgyblion yn trafod beth sy'n gwneud y daith gerdded i'r ysgol yn arbennig. Ai'r bobl maen nhw'n cerdded gyda nhw? Y golygfeydd maen nhw'n eu gweld?



LIVING STREETS

# FY NHAITH I'R YSGOL

## > DYDD LLUN

## > DYDD MAWRTH

## > DYDD MERCHER

## > DYDD IAU

## > DYDD GWENER

LIVINGSTREETSUK @LIVINGSTREETS @LIVINGSTREETS

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloger) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (Cymru a Lloger), Rhif Cofrestru Cwmni. 5368409